COFNODION CYFARFOD CYFFREDIN CYNGOR TREF MACHYNLLETH
Wedi ei cynnal yn y Plas ar Ddydd Llun Medi 28fed

Present: Cllrs. D W Davies, B. Dunn; G Baldwin; S Nicholas; D Lewis; E Hughes; S Rowlands; K Hubbard; M Williams; G Davies.

Also present: J. H. Parsons – Clerk; M Biffin - Secretary

5373 CT 28.09.09 **Ymddiheuriadau**

- Cllrs. G Jenkins; C Foster

5374 CT 28.09.09 **Cyflwyniad**

- Fe roddodd Abi Price a Cath Ridler o Ffrwythau I Bawb. Cyflwyniad am brosiect I blannu coed ffrwythau mewn llefydd cyhoeddus tu mewn I Gymuned Machynlleth. Cafodd ardal Bryn-y-Gog ei adnabod fel y lle mwyaf addas I gychwyn y brosiect – y syniad yw I blannu coed ffrwythau fel bod y Gymuned yn medru ei hel – oedd CSP a Cymunedau Cyntaf

wedi body n gefnogol iawn – Dywedodd Cyng Davies body n meddwl bod y brosiect yn syniad da ond yn pryderu am fandaliaeth – yr oedd Abi a Cathy n teimlo petai bobl yn helpu I blannu'r coed mi fyddent mwy tebyg o edrych ar ei hôl ac oeddynt yn pasa gofyn I blant Ysgol lleol gymeryd rhan yn y brosiect. Yr oedd y Cynghorion I gyd yn meddwl bod y brosiect yn ryfeddol a dymunodd y Cynghorion pob hwyl iddynt. **Cytunwyd** I yrru llythyr o gefnogaeth all gael ei ddefnyddio mewn cais ariannu yn y dyfodol - Gofynnodd y Clerc I CTM gael gwybodaeth sut oedd y brosiect yn symud ymlaen.

5375 CT 28.09.09 **Cofnodion**

Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor

5376 CT 28.09.09 **Busnes Stadurol**

- Mae'r adroddiad Blynyddol wedi cael ei arbrofi gan y Cynghorion.

5377 CT 28.09.09 **Busnes y Maer**

Fe roddodd y Maer ei adroddiad fel y canlyn.

- Cyflwyno tystysgrif chwaraeon yn yr Ysgo Uwchradd
- Yn bresennol yn derbyniad dinesig I'r ddwy llysgennad o Bolivia a Paris. Yr oeddynt yn bresennol I gŵyl El Sueno.
- Yn bresennol yn Miri Mawr yn y Plas – yr oedd llawer yn bresennol ac yn ddiwrnod pleserus – **cytunwyd** I yrru llythyr o ddiolch I David Vaughan, Clwb Rotary I ddiolch I bawb a gymerodd ran I wneud y diwrnod yn llwyddiannus.
- Yn bresennol yn y Plas I agor yr arddangosfa celf..
- Yn bresennol yn y Clwb Bowlio I ddathlu llwyddiant bowlwyr y Clwb – dywedodd y Clerc dylsai bod mwy o gynabyddiaeth cyhoeddus am llwyddiant y Clwb – Dywedodd Cyng Dunn wrth Cyng Rowlands ei fod yn ymddiheurio nag oedd wedi medru bodyno ond nid oedd wedi cael y gwahoddiad tan yn hwyr ar y Dydd Gwener.
- Yr oedd trip y Maer I Wrecsam yn llwyddiannus er bod y rhifau I lawr ar y

blynyddoedd cynt. Cafodd pawb a oedd ar y trip ddiwrnod bendigedig a pryd o fwyd braf yn Croesoswallt ar y Ffordd yn ôl.

. 5378 CT 28.09.09 **Materion yw Codi**

- Staffio Ysbyty **(5363)** – Llythyr wedi ei yrru I BLIP –ateb wedi ei dderbyn
- Llwybr troed Ffordd y Forge **(5199)** llythyr oddiwrth CSP
- Coeden tuallan I Fwyty yn Machynlleth **(5362) –** Llythyr I Mr Kohler
- Datblygiad Tesco **(5372)** – llythyr I'r adran cynllunio – e.bost wedi ei dderbyn oddiwrth John Pearson yn dweud bod astydiaeth adwerthol annibynol yn cymeryd lle. **Cytunwyd** I lythyr gael ei yrru oddiwrth y Clerc I Mr John Pearson ynglyn ar astudiaeth adwerthol blynyddoL Dywedodd Cyng Rowlands bod person lleol wedi cerdded I mewn I Dŷ Tafarn yn y Dref heb wybod bod cyfarfod yn erbyn Tesco yn cymeryd lle, a fe gafodd gamdriniaeth geiriol- Dywedodd Cyng Dunn ei fod yn teimlo bod CTM wedi cadw amddigiad cywir drwy'r broses – Dywedodd Cyng Williams dylsai CTM ysgifennu I'r ardal cynllunio yn ceisio bod aelod o CTM fod yn bresennol pan fyddai'r datblygiad yn cael ei drafod – Cytunwyd I Cyng Dunn fod yn bresennol – Dywedodd Cyng Dunn ei fod yn teimlo na ddylsai cynnig y CO-OP fod yn rhan or astudiaeth, a bod CSP yn ceisio dod allan or cyfrifoldeb o wneud penderfyniad – **Cytunodd** Cyng Baldwin –

5379 CT 28.09.09 **Adroddiad y Panel Pwrpas Cyffredin**

Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

- Dywedodd y Cynghorion I gyd mor dlws oedd y twbiau blodau.
- Dywedodd Cyng Davies dylsai y bobl a oedd wedi benthyg yr offerynau cerdd gael ei rhoddi ar ddeallt mae benthyciad oeddynt ac ei bod yn perthyn I CTM.

5380 CT 28.09.09 **Adroddiad y Panel Iechyd**

Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn..

- Dywedodd Cyng Dunn dylsai lythyr gael ei yrru I ymddiriedolaeth Hywel Dda yn gofyn pa wasanaethau oedd ar gael I famau beichiog yn Machynlleth
- Dylsai CTM yrru ei ateb I Adroddiad Ddarpariaeth Iechyd I'r henoed.

5381 CT 28.09.09 **Adroddiad Panel Cloc y Dref**

- Oedd Cyng Jenkins ddim yn bresennol ond mi ddaru Cyng Williams roddi adroddiad ar ei rhan. Dywedodd ei bod yn aros am gadarnhad swyddogol oddiwrth gronfa'r etifeddiaeth a bod cyfarfod I'w drefnu gyda'r pensaer.

5382 CT 28.09.09 **Adroddiad Panel y Plas**

Mae cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

- Dywedodd Cyng Dunn bod diddordeb gwyl y "TOLKIEN"yn cynnyddu ac oedd yn teimlo fyddai hyn yn ddigwyddiad rhagorol I'r Plas.
- Fe ddaru Cynghorwyr Williams, Lewis a Rowlands gynnig ei amser I'r diwrnod agored yn Mis Hydref.
- Gofynnodd Cyng Dunn os oedd unrhywun yn medru helpu gyda gwerthu ticedi I'r Cyngerdd yn Mis Tachwedd.
- Gofynnodd Cyng Rowlands I'r Cynghorwyr os fyddent yn ymweld a'r Plas I beidio a cerdded I mewn I ddim un ystafell oherwydd fe all fod cyfarfod yn mynd ymlaen -**Cytunwyd**

- Gofynnodd Cyng Rowlands I Cyng Dunn a'r ysgrifennyddes adael yr ystafell am bum munud ac wedyn dod yn ôl I mewn.

.

5383 Adroddiad Cyng Sir – J.M.Williams

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

28.09.09

- Cofnodion Mis Medi – 5.4 – Fe ddaru Cyng Williams gadarnhau bod CSP PILP yn gweithio tuagat gyfuniad, fe ddylsai y cyfuniad fod mewn lle erbyn Ebrill 2012 ac mor belled ac oedd yn gwybod hwn fyddai'r cyntaf yng Nnghymru.
- Gofynnodd Cyng Dunn os oedd y rhif o 73 Cynghorwyr y Sir yn mynd I ostwng yn yr etholiadau nesaf. Dywedodd Cyng Williams bod Comisiwn Terfyn yn cyfarfod I drafod hyn ac oedd yn teimlo bod 45 o gynghorwyr yn hen ddigon I redeg y Cyngor a fe ddylai y pres a gynilwyd fund tuagat gwasanaethau ymarferol – **Cytunwyd** I lythyr gael ei yrru I WAG I ofyn am eglurhad ar gostwng rhif o Gynghorwyr.

5384 Ceisiadau Cynllunio

CT

28.09.09

- P2008 0723 – 17-19 Heol Penrallt – **Gwrthodwyd**
- P2009 0840 – YR Hen Danerdy – trawsnewidiad I oriel celfyddyd
- P2009 0853 – Cloc y Dref – caniatâd adeilad rhestredig
- P2009 0781 – 27 Bryn y Gog – tŷ gwydr – **Cytunwyd**
- P2009 0807 – Co-Op – estyniad I'r Ganolfan Gymuned
- P2009 0755 – 5 Heol Y Doll – newid iws - **Caniatad**
- Llythyr oddiwrth CSP ynglyn a Mr a Mrs Jenkins Ysgubor Wen,
- P2009 0914 – Y Plas, Machynlleth – adeiladu lloches, a stôr garddio

5385 Datganiad Cyfrifon

CT Mae cofnodion y y Cyfrifon wedi ie dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

28.09.09

Date		Chq No	Chq Drawn
28/07/2009	Colin Wilde	5128	£ 1,236.41
	Mark Rumbelow	5129	£ 413.39
	R A Gaskell	5130	£ 140.83
31/07/2009	Mel Biffin	5131	£ 375.34
05/08/2009	R A Gaskell	5132	£ 125.88
11/08/2009	R A Gaskell	5133	£ 140.83
11/08/2009	Inland Revenue	5134	£ 765.15
	BT	5135	£ 87.76
	Y Plas - Drill from I G Owen	5136	£ 41.39
	PCC - Rates on Community Centre	5137	£ 792.00
14/08/2008	Travis Perkins	5138	£ 134.10
18/08/2009	R A Gaskell	5139	£ 229.24
25/08/2009	R A Gaskell	5140	£ 198.95
26/08/2009	Colin Wilde	5141	£ 1,204.20
	Mark Rumbelow	5142	£ 394.88
02/09/2009	R A Gaskell	5143	£ 110.74
08/09/2009	R A Gaskell	5144	£ 265.16
10/09/2009	Mel Biffin	5145	£ 346.67
15/09/2009	R A Gaskell	5146	£ 140.83
	Inland Revenue	5147	£ 796.13
22/09/2009	R A Gaskell	5148	£ 145.94
	Clips	5149	£ 5.57
	John Edwards – Audit	5150	£ 100.00
	Bwyty'r Plas - Chillian Evening	5151	£ 348.00
	I G Owen	5152	£ 4.10

	B3 Architects	5153	£	3,973.00
	Technical Services Shropshire - CCTV	5154	£	354.17
			£	**12,870.66**

5386 CT 28.09.09

Gohebiaethau

- Tesco – llythyr I Lembit Opik MP copi o dataniad I'r wasg oddiwrth George Monbiot,dataniad I'r wasg oddiwrth Roy Thomas.
- Ffensio yn Tregarth – llythyr I CSP – dim ateb
- Ffordd Penrallt – trimio ymylon – llythyr CSP – dim ateb
- SNAP – Cais am gyngor rhoddi safle I bwynt gwybodaeth – Awgrymodd Cyng Dunn Canolfan Hyddgen – mi fydd gohebiaethau yn cael ei gyrru ymlaen iddynt
- Menter amgylchedd Lleol
- Wynnstay Hotel – cwyn wedi ei dderbyn – ateb wedi ei yrru.
- Heddlu Dyfed Powys – Cais am ddefnyddio Ystafell – amryw gohebiaeth– Dywedodd Cyng Dunn a'r diwrnod angladd Glyn Rowlands gofynnodd PCSO Monk a fedrai Heddlu Dyfed Powys ddefnyddio ystafell Mary Cornelia I gadw golwg ar Cofadail Owain Glyndwr – Dywedodd Cyng Dunn fod o ddim yn gwybod pwy wybodaeth oedd yr heddlu wedi derbyn ac felly yr oedd yn tybio mae I gadw golwg ar y bobl yn yr angladd – Gwrthododd Cyng Dunn y dymuniad a teimlodd ddylsai rhywun uwch fod wedi gofyn. Dywedodd Cyng Dunn wrth PCSO Monk petai hi eisiau mynd dros ei ben fe ddylsai siarad gyda'r Clerc neu'r Maer. Cysylltiodd Cyng Dunn gyda'r Clerc a dywedodd wrtho am y cais a beth oedd ei ateb – rhoddodd y Clerc adroddiad ar lythyron yr oedd wedi gyrru I'r Prif Gwnstabl ynglyn a hyn – Dywedodd y Clerc bod yn anhymladwy I ofyn am hyn ar ddiwrnod angladd dyn lleol – dywedodd y Clerc hefyd bod pryder yn y dref ynglyn a'r rhifau o'r heddlu ac hefyd nifer mewn dillad plaen a teimlodd mae hyn oedd y rhif mwyaf or heddlu yr oedd y dref erioed wedi gweld – Dywedodd Cyng Rowlands bod Glyn yn agos I galonnau llawer un yn Machynlleth a diolchodd I'r Clerc a Cyng Dunn am ei penderfyniad. Gofynnodd Cyng Dunn iddo gael ei gofnodi bod dipyn o feddwl o PSCO Monk yn y dref a bod hyn ddim yn adlewyrchedig ohon hi. .
- Ffermydd Gwynt
- Gweithdai Comisiwn Terfyn Llywodraeth Lleol – Gofynnodd Cyng Williams I lythyr gael ei yrru yn gofyn pam bod Canolfan Cymru wedi cael ei gadael allan or ardaloedd a gynhaliwyd y Gweithdai ac hefyd I yrru manylion y Plas iddynt **Cytunwyd**
- Un Llais Cymru – AGM
- Cynllun datblygiad gwledig Powys – llythyr I gael ei yrru I gefnogi hyn
- Bwlch Agored – adnewyddiad aelodaeth – **Cytunwyd** I adnewyddu aelodaeth
- Gweithdai Llusern – llythyr o ddiolch oddiwrth J Heskins
- Pryder Ambiwlans – - e.bost oddiwrth CHC Sir Drefaldwyn – llythyr wedi ei dderbyn
- Papur Ymgynghoriad- PILP" PLHB"
- Manylion Gwasanaeth dydd y Cofio
- Meithrinfa a Clwb y tu allan I'r Ysgol – gofyn am lythyr o gefnogaeth. Dywedodd y Maer – Cyng S Rowlands ei bod yn gefnogol iawn o'r brosiect ac oedd yn dda gweld y plant yn dod yn ei blaen. **Cytunodd** y

Cynghorion fe fyddai yn braf I weld yr Ysgol yn cael ei defnyddio unwaith eto – **Cytunwyd** I yrru llythyr o gefnogaeth –.

5387 TC 28.09.09

Rhifennau

- Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Lleol
- Tai Canolbarth Cymru
- Cylchgrawn Llais
- WAG – Adroddiad adolygiad annibynnol o gymorth ariannol
- Taflen newyddion Pryder yr Henoed
- Taflen newyddion Colitis & Crohns Aberystwyth

5388 TC 28.09.09

Unrhyw Fusnes Arall

- Dywedodd Cyng Dunn bod preswyliwr wedi gofyn beth oedd wedi digwydd I'r hawl dramwy yn Maesglas oherwydd yr oedd wedi ei gau pan oedd y tai wedi cael ei ailwampin – Dywedodd Cyng Baldwin ei body n credo na fu hawl dramwy yno a bod y tir yn breifat – Awgrymodd Cyng Williams I lythyr gael ei yrru I David Micah yn gofyn am eglurhad. Dywedodd Cyng Rowlands bod preswylwyr yn pryderu ynglyn a cau Banc Barclays ar ddydd Mawrth.**Cytunwyd** I yrru llythyr I'r Banc Barclays.